**<u>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar COVID hir / NODYN DYDDIADUR</u>**
**Cofnodion drafft y Cyfarfod**

**29 Mehefin 2022**

**Cyfarfod ar-lein 12.15-13.30**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol: (Enwau fel y maen nhw'n ymddangos ar Zoom)**<br>**Hefin David**<br>**Heledd Roberts**<br>**Micela Gal**<br>**Alex Still**<br>**Adrian Edwards**<br>**Rhianydd Williams**<br>**Danielle Green**<br>**Delyth Jewell**<br>**Dr Ian Frayling**<br>**Sian Griffiths**<br>**Kat**<br>**Mary-Anne John** | **Kelly Preston**<br>**Sally Callow**<br>**Georgina Passmore**<br>**Helen M James**<br>**Joanne E**<br>**Rhun Ap Iorwerth**<br>**Geraint Jones**<br>**Lee David Bowen**<br>**Pat**<br>**Georgia Walby**<br>**Angelarhodes**<br>**Sarah O'Connell** |

1. **Agenda**

- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Y siaradwr gwadd cyntaf yw'r Athro Adrian Edwards, Cyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru.
- Yr ail siaradwr yw Ceri Williams o TUC Cymru, a fydd yn rhoi diweddariad ar faterion cyflogaeth sy'n ymwneud â Covid hir.
- Bydd Covid Hir Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth.
- Adolygu'r llythyr a anfonwyd at y Gweinidog Iechyd – Copi i fod ar gael i'r cyfranogwyr.

2. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Penodi Rhun Ap Iorwerth yn gyd-gadeirydd
**Cynigiwyd: Hefin David**
**Eiliwyd gan: Delyth Jewell**

Penodi Hefin David yn gyd-gadeirydd
**Cynigiwyd: Delyth Jewell**
**Eiliwyd gan: Rhun ap Iorwerth**

**Hefin Dafydd** - ailbenodwyd Covid Hir Cymru i ddarparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp.

Croesawyd yr aelodau i'r grŵp.

## 3. Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru – Diweddariad Covid Hir Gorffennaf 2022 – cyflwynwyd gan yr Athro Adrian Edwards

Yr Athro Adrian Edwards a Micela Gal sy’n arwain y gwaith o grynhoi a defnyddio gwybodaeth (‘knowledge mobilisation’), gan ganolbwyntio ar fanteisio ar wybodaeth a thystiolaeth wrth greu polisïau. Ariannwyd Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru o fis Mawrth 2021 gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru er mwyn cefnogi'r defnydd o ymchwil a thystiolaeth wrth reoli'r pandemig a sefydlu'r cyfnod adfer.

Un o rolau Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru yw crynhoi'r swm enfawr o ymchwil sydd ar gael i greu crynodebau perthnasol o dystiolaeth fydd yn helpu’r rhai sy’n llunio polisïau i'w defnyddio'n ymarferol.

Amlinellodd yr Athro Edwards y broses a ddilynir gan y Ganolfan – blaenoriaethu tystiolaeth, crynhoi’r dystiolaeth yn gyflym (1-2 wythnos), adolygiad cyflym (misoedd), ac yn y pen draw crynhoi a defnyddio’r wybodaeth. Dyma enghreifftiau o'r astudiaethau:

- Astudiaeth LOCOMOTION (Prifysgol Leeds) yn gwerthuso'r gwasanaethau Covid hir mewn 10 canolfan o amgylch y DU.
- Astudiaeth LISTEN (Ysbyty St George a Phrifysgol Caerdydd) sy'n datblygu a gwerthuso cynlluniau cymorth hunanreoli i bobl sydd â Covid hir.

Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn adolygu'r dystiolaeth am Covid hir gyda Phrifysgol Bangor, y blaenoriaethau yw: Beth yw’r effaith o ran costau yn sgil y pwysau a roddir ar y GIG a Gofal Cymdeithasol oherwydd Covid hir, a beth yw’r effaith o ran costau yn sgil Covid hir ar gyflogaeth a chyfrifoldebau gofalu? Yn anffodus, nid oes llawer o dystiolaeth eto gan nad oes llawer o ddeunydd ar gael felly byddai'n annoeth bwrw ymlaen i adolygiad llawn ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei adolygu mewn ychydig fisoedd. Y trydydd adolygiad blaenoriaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd yw: Beth yw effaith hirdymor Covid 19 ar ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn unigolion a gafodd symptomau ysgafn (heb orfod mynd i’r ysbyty)? Mae'n debygol y bydd hyn yn mynd ymlaen i edrych yn fanylach ar ba gefnogaeth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef o Covid hir.

Mae angen i'r astudiaethau ymchwil newydd edrych ar yr hyn sy'n ofynnol yng Nghymru a beth y gellir ei wneud yn gyflym i helpu’r rhai sy’n llunio polisïau. Mae Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru yn cael ei hariannu ar hyn o bryd tan fis Mawrth 2023. Mae enghreifftiau o’r ymchwil sylfaenol yn cynnwys gwaith Dr Helen Davies (Caerdydd a’r Fro) i archwilio'r defnydd o sganio MRI ar yr ymennydd a bonyn yr ymennydd, gan chwilio am wahaniaethau rhwng pobl â Covid hir a phobl nad oes ganddynt Covid hir, yn ogystal ag ymchwil i driniaethau gwrthfeirysol, agweddau at frechu, iechyd meddwl gweithwyr allweddol, ymddygiad meddygon teulu yng Nghymru o ran atgyfeiriadau canser a monitorau CO2 mewn ysgolion.

Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NIHR) - £50 miliwn wedi’i ymrwymo i waith ymchwil yn sgil Covid sy'n edrych ar ba mor gyffredin ydyw, symptomau, diagnosis, imiwnoleg, adferiad ac adsefydlu. Mae NIHR wedi cyhoeddi 3 adolygiad hyd yma ar Covid 19.

**Sesiwn holi ac ateb**

**Pa mor bwysig ydyw i gasglu tystiolaeth yn uniongyrchol o'r GIG ar asesu cleifion sydd â symptomau Covid hir – mae pobl yn teimlo na chawsant eu hasesu yn y GIG a'u bod wedi gorfod mynd yn breifat.**

Mae llawer o astudiaethau gan yr NHIR sy'n archwilio miloedd o gleifion a ddylai roi mwy o wybodaeth i ni am yr ystod o symptomau. Dylai'r astudiaethau hyn helpu i nodi'r ystod o symptomau, ond gall Covid hir gynnwys gwahanol gyflyrau fel problemau llidiol, problemau imiwnoleg, problemau blinder cronig, problemau ceuladau gwaed ac ati. Dim ond cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at y Clinigau Covid hir sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth LOCOMOTION. Tynnwyd sylw at y diffyg gwasanaethau yng Nghymru.

**Mae'r clefyd yn dod i'r amlwg mewn ffyrdd gwahanol – a ddylid blaenoriaethu prawf diagnostig? Pa waith a gynigir yng Nghymru i edrych ar effeithiau gwrthgeulo ar Covid hir?**

Mae'r llwyfan Heal Covid yn cynnal gwaith ymchwil i therapiwteg Covid hir. Mae yna ymchwilwyr yng Nghymru sy'n awyddus i weithio ar therapiwteg all gael eu hariannu gan yr NIHR ond mae Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru yn awyddus i wneud gwaith ymchwil sydd â chyd-destun Cymreig.

**A oes unrhyw ymchwil all brofi bod pobl wedi dal Covid yn y gwaith?**

Byddai'n anodd profi hyn. Mae'n bwysig ceisio canfod ateb. Ystyriwyd rhai materion cysylltiedig fel hiliaeth yn y GIG. Mae'n bwysig edrych ar ddod i gysylltiad â'r clefyd yn y gwaith. Gall y grwpiau rhanddeiliaid gyflwyno'r math yma o geisiadau a byddent yn agored i edrych ar y pwnc hwn. Asesir y ceisiadau hyn drwy edrych ar faint y baich, a yw'n berthnasol i Gymru, yn amserol a sut y gall ein helpu i newid rhywbeth yn ymarferol.

**A ystyrir unrhyw fewnbwn gan gleifion pan fyddwch chi'n gwneud eich penderfyniadau polisi?**

Roedd Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru yn gwerthfawrogi'r effaith enfawr y mae Covid hir wedi'i chael ar fywydau pobl ac mae'n cefnogi cynrychiolaeth cleifion. Mae'r Athro Evans yn cadeirio grŵp cynghori ar gyfer astudiaeth LOCOMOTION a gwnaeth yn siŵr fod y grŵp cynghori hwnnw yn cynnwys aelod o'r cyhoedd fel cyfrannwr. Mae cleifion yn cymryd rhan drwy grwpiau cynrychiolaeth cleifion ac ymgynghoriadau cyhoeddus. Ers mis Rhagfyr, mae Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru wedi sefydlu'r grŵp partneriaid cyhoeddus sy'n cyflwyno safbwyntiau defnyddwyr i bob maes o'r prosesau fel y trafodwyd eisoes. Gofynnwyd i nifer o grwpiau budd cyhoeddus am eu barn hefyd.

**A yw'n dderbyniol gorfod aros 27 mis ar ôl cael haint i gael triniaeth? A oes unrhyw astudiaethau neu dystiolaeth am farcwyr llidiol (paneli sytocinau) yn cael eu cynnal yng Nghymru?**

Mae sawl darn o waith wedi'i wneud ar reoli rhestrau aros**.** Nid yw Canolfan Dystiolaeth Covid 19 Cymru wedi edrych ar sytocinau ond byddai'n croesawu cynnig i edrych ar hyn neu astudiaethau eraill a allai fod wedi ystyried hyn yn barod.

**A oes unrhyw astudiaethau y gallai pobl yn y grŵp hwn gymryd rhan ynddynt nawr?**

Mae astudiaeth LISTEN yn recriwtio nawr. Mae grwpiau ar gyfer aelodau o'r cyhoedd lle gall pobl gyfrannu.

Diolchwyd i'r Athro Evans am ei gyflwyniad.

4. **Covid yn y gweithle – Ceri Williams (TUC) a Rhianydd Williams**

Diolchodd Ceri i'r grŵp am y gwahoddiad i siarad heddiw. Bydd Ceri yn cyflwyno ar y cyd â Rhianydd Williams.

Dywedodd Ceri wrth y grŵp fod y Cyngor Cynghori ar Anafiadau Diwydiannol yn gweithio ar bapur fydd yn argymell dynodi Covid 19 am nifer gyfyngedig o gyflyrau a gweithwyr ac i'w wneud yn destun i rai amodau sy'n hawdd eu profi ac yn hawdd eu mesur. Amlinellwyd y broses i gyflwyno'r papur hwn i Lywodraeth y DU.

Trafododd Rhianydd faterion cydraddoldeb a datblygu cyfraith achosion. Mae cyfraith achosion erbyn hyn sy'n caniatáu i ni ystyried Covid fel anabledd. Mae'r newid hwn yn cefnogi unigolion i ofyn i'w cyflogwyr wneud addasiadau rhesymol.

Rhoddodd Ceri wybod i'r grŵp am yr Addewid Diogelwch Covid. Mae hyn yn ymrwymo cyflogwyr i ddatblygu cynllun diogelu ar gyfer staff a'r cyhoedd. Gall gweithwyr ofyn i'w cyflogwyr ymrwymo i'r addewid hwn. Mae'r TUC yn mynd ati i gefnogi gweithwyr sydd â Covid hir ac yn lobïo'r llywodraeth i wneud mwy o waith ymchwil ar y pwnc hwn ac i gefnogi gweithwyr yn deg.

Trafododd Rhianydd y math o addasiadau a fyddai'n rhesymol ar gyfer gweithwyr. Mae gan rai sefydliadau bolisïau da ar waith ond mae yna lawer o sefydliadau sydd heb unrhyw bolisïau ar waith. Mae gan y TUC becyn cymorth ar anabledd a namau cudd yn y gweithle a chymorth i unigolion â Covid hir sydd ar gael ar y wefan.

**Sesiwn holi ac ateb**

**Ai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am hyn?**

Na, mae meysydd lle gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy, yn enwedig o ran polisïau i gefnogi gweithwyr a chefnogi mwy o waith ymchwil yng Nghymru.

**Yfory bydd y cyflog llawn i weithwyr y GIG yng Nghymru yn dod i ben (yn yr Alban bydd yn dod i ben ym mis Awst), beth yw safbwynt y TUC o ran parhau â chyflog llawn i staff y GIG sydd â Covid hir?**

Mae'r TUC yn gwerthfawrogi bod y materion hyn wedi cael eu trafod yn y Senedd. Mae'r undebau sy'n cynrychioli gweithwyr iechyd a gofal yn rhan o fforwm lle maen nhw'n trafod y mater hwn yn rheolaidd. Cyfrifoldeb yr undebau unigol yw pwyso am hyn. Hoffai'r TUC weld hyn yn parhau. Cynigiodd Ceri anfon rhagor o wybodaeth at Rhun a Hefin.

5. **Trafod y camau gweithredu:**

Bydd lincs a chyflwyniadau ar gael i aelodau'r grŵp ar gais.
Disgwyl ymateb i'r cwestiynau ynghylch Covid hir.
Llythyr at y Gweinidog i drafod plant a Covid hir/ gwasanaethau i blant sydd â Covid hir.
Cyflog Covid hir yn y GIG.

6. **Grŵp Covid hir Cymru – Georgia Walby**

Mae aelodau'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau Covid hir sy'n anaddas iddynt oherwydd bod eu symptomau'n dod i'r amlwg ar ôl ymdrechu i wneud rhywbeth. Maen nhw'n cael eu hatgyfeirio wedyn at seicolegydd ac yna yn ôl at y meddyg teulu i ofyn am atgyfeiriad arall. Mae unigolion hefyd yn ei chael hi'n anodd cael profion i ddiystyru niwed i'w horganau.

Mae treial yn Llundain, sef astudiaeth STIMULATE ICP, sy'n edrych ar therapiwteg ar gyfer Covid hir. Hoffai'r grŵp hwn weld astudiaeth debyg yng Nghymru.

Nid oes llwybr o hyd ar gyfer mewnbwn/cynrychiolaeth cleifion ym mholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Covid hir.

Croesawyd y dyfarniad o ran cyfraith cyflogaeth ac anabledd.

Mae aelodau Grŵp Covid Hir Cymru yn dal i gael trafferth cael mynediad at ofal iechyd, cefnogaeth gymdeithasol a chymorth ariannol.

| **Camau gweithredu** |
|---|
| Datganiad barn –<br>Nodi'r polisi ar Addewid Covid, Covid hir a Covid yn y gweithle |

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cyfarfod yn yr Hydref – Dyddiad ac amser i'w cadarnhau